# Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55 a'r A494 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin Rhwng Cyffordd 35 a Chyffordd 33b, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffyrdd a'r gweithlu tra gwneir gwaith trwsio ar wyneb y gerbytffordd ar Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") rhwng Cyffyrdd 35 a 33b yn Sir y Fflint.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym ar 3 Rhagfyr 2012 ac yn parhau mewn grym tan 7 Rhagfyr 2012 neu nes bydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol. Rhagwelir y bydd y gwaith yn digwydd rhwng 18:30 o'r gloch a 06:00 o'r gloch yn unig.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Y llwybrau amgen fydd y rhai a ddisgrifir yn Atodlen 3. Nid oes llwybr dargyfeiriol ar gael ar gyfer cerbydau sy'n lletach na 3 metr. Fodd bynnag, gwneir trefniadau i stacio unrhyw gerbydau y mae'r gwaharddiad yn effeithio arnynt yn y cilfannau cyn Cyffordd 35 tan 06:00 o'r gloch.

ii. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y Gorchymyn yn weithredol yn ystod y dyddiadau a bennir uchod yn unig, er hynny bydd yn parhau i fod yn ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf ac yn parhau wrth gefn pe bai angen aildrefnu'r gwaith neu pe bai angen gwneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/2012).

M D BURNELL
Trafnidiaeth

### YR ATODLENNI

#### Atodlen 1

Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn am bellter o 3865 o fetrau o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35 i'r man y mae'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 yn uno â'r A494 wrth ddolen Ewloe.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin â'r A55 wrth Gyffordd 35.

Y darn cyfan o ffordd ymadael â'r A55 tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34.

Y darn cyfan o ffordd ymadael â'r A494 tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33b.

#### Atodlen 2

Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 1200 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35 i bwynt lle y mae'r ffordd ymadael honno'n cyfarfod â'r A550.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyfnewidfa Ewloe i ganolbwynt Pont Pottery.

#### Atodlen 3

Y llwybrau amgen

Dylai'r rhai yr effeithir arnynt pan gaeir y ffordd yn Atodlen 1(i), (ii) a (iii) ymadael â'r gefnffordd wrth Gyffordd 35, dilyn yr A5104 tua'r de i ymuno â'r A549 tua'r gorllewin drwy Fwcle yna'r A451 yn yr Wyddgrug a'r A5119 tua'r gogledd tuag at y Fflint i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 33.

Dylai'r rhai yr effeithir arnynt pan gaeir y ffordd yn Atodlen 1(iv) gymryd yr A55 tua'r gorllewin i Gyffordd 33 ac ymadael yno i ddilyn yr A5119 tua'r de tuag at yr Wyddgrug ac yna tua'r dwyrain i ymuno â'r A494 yn New Brighton.

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## The A55 & A494 Trunk Roads (Westbound Carriageway between Junction 35 and Junction 33b, Flintshire) (Temporary Traffic Restriction & Prohibitions) Order 2012

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to maintain the safety of road users and the workforce whilst carriageway surface repairs are undertaken on the Chester – Bangor Trunk Road (A55) (hereinafter referred to as "the trunk road") between Junctions 35 and 33b in the County of Flintshire.

The temporary prohibitions and restriction, which will be signed accordingly, are expected to come into force on 3 December 2012 and remain until 7 December 2012 or until the temporary traffic signs are permanently removed. It is envisaged that the works will only take place between 18:30 hours and 06:00 hours.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding in the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are described in Schedule 3. No diversionary route is available for vehicles with a width greater than 3 metres. However, arrangements will be made to stack any such vehicles affected by the prohibition in the lay-bys situated prior to Junction 35 until 06:00 hours.

ii. Impose a 40 mph speed limit on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Notice.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2012).

M D BURNELL
Transport

### SCHEDULES

#### Schedule 1

Temporary prohibition of vehicles, cyclists and pedestrians

i. That length of the westbound carriageway of the A55 trunk road that extends for a distance of 3865 metres from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 35 to the merge of the Junction 34 westbound entry slip road with the A494 at Ewloe Loop.

ii. The entire length of the A55 westbound entry slip road at Junction 35.

iii. The entire length of the A55 westbound exit slip road at Junction 34.

iv. The entire length of the A494 westbound exit slip road at Junction 33b.

#### Schedule 2

Temporary 40 mph speed limit

The length of the westbound carriageway of the A55 trunk road that extends from a point 1200 metres east of the nosing of the westbound exit slip road at Junction 35 to the point where the said slip road meets the A550.

The length of the westbound carriageway of the A494 trunk road that extends from the centre-point of Ewloe Interchange to the centre-point of Pottery Bridge.

#### Schedule 3

Alternative routes

Those affected by the closures in Schedule 1(i), (ii) and (iii) should leave the trunk road at Junction 35, follow the A5104 southbound to join the A549 westbound through Buckley then the A541 at Mold and the A5119 northbound towards Flint to rejoin the A55 at Junction 33.

Those affected by the closure in Schedule 1(iv) should take the A55 westbound to Junction 33 there exiting to follow the A5119 southbound towards Mold then eastbound to join the A494 at New Brighton.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE